

**CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun 10 o Ionawr 2021 am 7:30pm drwy Zoom.

YN Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Jim
BRESENNOL: Bryan, Heather Williams, Christine Ellis, Gavin Harris a Rachel Lewington

Croesawodd y Cyngorydd Menna Jones bawb i cyfarfod cyntaf 2022 o'r Pwyllgor Amwynderau.

80. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Mike van der Eijk.

81 DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

82. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 6 o Ragfyr 2021 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

83. MATERION YN CODI

Cofnod 69 a 77: Cwnigar y Castell: Adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ddinbych. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad.

Cofnod 77: Plannu Coed: Roed trefniadau i Staff CSDd a gwirfoddolwyr blannu coed ym mis Chwefror (ydyddiad i'w gadarnhau).

PENDERFYNWYD: I'r Clerc ofyn am ddiweddariad ar Cwningar y Castell gan y Cyngor Sir.

84. GOLEUADAU NADOLIG – Y GOEDEN A'R MOTIFS

Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau yn ffurfiol oherwydd difrod, bod goleuadau'r goeden Nadolig wedi'u tynnu oddi ar y goeden ar 22 Rhagfyr. Byddai'r trydanwr yn asesu'r goleuadau presennol ac yn sicrhau dyfynbrisiau ar gyfer rhai newydd. Roedd y difrod i'r Goeden Nadolig a'r goleuadau yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.

Holwyd a rhannwyd barn yr aelodau ar bwnc cyffredinol goleuadau Nadolig, yn fotiff, coeden ac opsiynau eraill ar gyfer tymor y Nadolig 2022 a thu hwnt, ar gyfer canol y dref a'r ardaloedd cyfagos. Dywedwyd ni ellid diystyru pwysigrwydd sicrhau goleuadau Nadolig priodol i ddenu ymwelwyr a siopwyr i'r busnesau lleol.

Cytunwyd i sefydlu grŵp amser penodol i gefnogi Clerc y Dref i nodi opsiynau ar gyfer goleuo ac ati ar gyfer Tymor y Nadolig 2022 a thu hwnt ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Amwynderau maes o law.

PENDERFYNWYD: sefydlu grŵp amser penodol i nodi opsiynau ar gyfer tymor Nadolig 2022 a thu hwnt ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Amwynderau.

85. NAWDD Y GOEDEN NADOLIG

Mynegodd yr aelodau eu diolch diffuant i gwmni Clogau am noddï coeden Nadolig y Dref a goleuadau'r goeden ar gyfer tymor y Nadolig 2021 a gofynnwyd am anfon llythyr o ddiolch i Clogau.

Penderfynwyd bod arian i'w nodi yng nghyllideb y Cyngor Tref ar gyfer coeden Nadolig a goleuadau, a bod y grŵp amser penodol yn cael y dasg ychwanegol o asesu'r egwyddor o gyfleoedd noddï'r goeden Nadolig yn y dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Amwynderau maes o law.

PENDERFYNWYD: rhoi'r dasg i'r grŵp amser penodol i asesu'r egwyddor o noddï coeden Nadolig yn y dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Amwynderau.

86. PROSIECT DOLYDD BLODAU GWYLLT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig Cyngor Sir Ddinbych i gynnwys tri safle ychwanegol yn Rhuthun i'w cynnwys ym mhrosiect Dolydd Blodau Gwyllt: sef: Pen y Maes, Cylchfan Glasdir a Chylchfan Briec. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai llinell welediad clir i yrwyr yn cael ei chynnal ac y byddai'r gwaith plannu a chynnal a chadw priodol yn cael ei wneud.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i gynnwys Pen y Maes, Cylchfan Glasdir a Chylchfan Briec yn y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt.

87. TENDR TORRI GLASWELLT

Nododd y Pwyllgor y byddai'r broses dendro torri glaswellt yn ail gychwyn yn fuan ar gyfer 2022. Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau a Chlerc y Dref yn adolygu'r dogfennau tendro.

PENDERFYNWYD: bod Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau a Chlerc y Dref yn adolygu'r dogfennau tendro.

88. BASGEDI CROG

Nododd y Pwyllgor y byddai'r broses dendro ar gyfer cyflenwi planhigion a gosod basgedi crog yn cychwyn yn fuan ar gyfer 2022. Cytunodd yr Aelodau i barhau i sicrhau bod cyllideb briodol ar gael ar gyfer basgedi crog yn y dref a chytunwyd bod y basgedi i'w llenwi a'u gosod erbyn dechrau mis Mai 2022. Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau a Chlerc y Dref yn adolygu'r dogfennau tendro.

PENDERFYNWYD: y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau a Chlerc y Dref yn adolygu'r dogfennau tendro ac yn cynnwys yr angen i osod y basgedi crog yn eu lle erbyn dechrau Mai 2022.

89. AMCANGYFRIF ARIANNOL AM FLWYDDYN ARIANNOL 2022-23

Ystyriodd y Pwyllgor Amwynderau ei wariant ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23. Cytunwyd i gynnwys £2,000 ychwanegol ar gyfer dathliadau'r dref a £1,000 ar gyfer goleuadau Nadolig o fewn y cyllid.

PENDERFYNWYD: cynnwys £2,000 ychwanegol ar gyfer dathliadau'r dref a £1,000 ar gyfer goleuadau Nadolig o fewn y cyllid ar gyfer 2022-23.

90. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: mai nos Lun 7 o Chwefror 2022 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.